Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# The Lily Pad
# Canolfan Gofal Plant yr Awyrlu Brenhinol
# RAF y Fali
# Caergeiliog
# Ynys Môn
# LL65 3NY

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2018**

## Cyd-destun

Mae Meithrinfa Ddydd Lily Pad yng Nghaergeiliog yn awdurdod lleol Ynys Môn. Mae'r lleoliad yn agored bob dydd o'r wythnos am 48 wythnos y flwyddyn rhwng 8.00am a 6.00pm ac mae wedi'i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu gofal dydd llawn ar gyfer hyd at 64 o blant rhwng chwe wythnos oed ac oedran ysgol amser llawn. Mae'n cynnig addysg gynnar bob bore yn ystod y tymor.

Mae'r lleoliad yn elusen gofrestredig ac fe gaiff ei redeg gan reolwr, arweinydd a dau ymarferwr.

Adeg yr arolygiad, nodwyd bod gan rai plant anghenion dysgu ychwanegol. Mae pob un o'r plant yn siarad Saesneg fel eu mamiaith.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ddiwethaf yn Nhachwedd 2017 a chan Estyn ym Mai 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae gan y lleoliad ethos cynnes a chroesawgar lle mae plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi
- Mae'r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i gynllunio ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb y plant yn dda
- Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol a diddorol ar draws meysydd dysgu'r cyfnod sylfaen
- Ceir ystod dda o adnoddau diddorol i blant eu defnyddio

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae arweinydd y lleoliad yn darparu gweledigaeth a chyfeiriad clir
- Mae rolau a chyfrifoldebau yn y lleoliad wedi'u diffinio'n dda ac mae staff yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm cryf, gan gynorthwyo'i gilydd o ran gwella'u perfformiad
- Mae gan reolwyr a'r arweinydd ddisgwyliadau uchel o bob ymarferwr ac maent yn eu cynorthwyo'n effeithiol i ddarparu profiadau o ansawdd uchel ar gyfer pob un o'r plant
- Mae gan y lleoliad system effeithiol i nodi'r hyn y mae'n ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddo'i wella
- Mae'r lleoliad yn ymateb yn dda i gyngor a chymorth gan yr awdurdod lleol

## Argymhellion

A1 Datblygu'r defnydd o ymwelwyr, ymweliadau a chysylltiadau â'r gymuned a lleoliadau eraill i wella dysgu

A2 Gwella gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion i alluogi plant i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd

A3 Sicrhau bod yr holl arferion dyddiol yn herio plant ar lefel addas

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | dd/b |
|---|---|

**Safonau: dd/b**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau datblygiad eu medrau, eu Cymraeg a'u lles. Y rheswm am hyn yw nad oedd nifer y plant perthnasol a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad yn ddigonol i adrodd heb nodi plant unigol.

**Lles: dd/b**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau datblygiad eu medrau, eu Cymraeg a'u lles. Y rheswm am hyn yw nad oedd nifer y plant perthnasol a oedd yn bresennol adeg yr arolygiad yn ddigonol i adrodd heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol a diddorol ar draws meysydd dysgu'r cyfnod sylfaen. Mae ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth dda i ddiddordebau plant wrth gynllunio ac yn cynnwys gweithgareddau yn unol â'u diddordebau. Mae sesiynau dyddiol yn cynnwys cydbwysedd da o gyfleoedd i blant ymuno â gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion a dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu profiadau ysgogol sy'n cymell y plant, er enghraifft mynd â'r plant i'r ardd gudd i chwilio am gwningod o faint gwahanol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd defnyddiol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ardal lyfrau yn cynnwys adnoddau da a rhoddir digon o gyfleoedd i blant ddarllen a chreu marciau yn annibynnol. Er enghraifft, mae gan y siop lyfr ysgrifennu, a chlipfwrdd ar gyfer ysgrifennu yn yr ardal adeiladu. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r amser croesawu yn y bore yn dda i gefnogi dealltwriaeth plant o seiniau llythrennau a medrau siarad a gwrando, fel adnabod llythrennau cyntaf eu henwau. Mae ymarferwyr yn annog y plant i ddefnyddio eu medrau meddwl, er enghraifft didoli bwydydd iach ac afiach mewn basgedi.

Defnyddir amser cylch yn effeithiol i ddatblygu medrau rhifedd cynnar plant. Mae ymarferwyr yn annog y plant i gyfrif bathodynnau enw a pharu eu hateb â nifer y plant sy'n bresennol, ac ymuno â chaneuon a rhigymau â thema fathemategol yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddefnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio cyfrifiaduron llechen i gofnodi gweithgareddau a thynnu lluniau ym mhob ardal yn y

lleoliad, er enghraifft dal cwningen sy'n anifail anwes a chofnodi eu helfa cwningod yn yr awyr agored.

Caiff plant gyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eu medrau corfforol yn yr ardal fawr yn yr awyr agored lle maent yn dringo, neidio, balansio a llithro. Rhoddir cyfleoedd da i blant ddysgu sut i ymdrin ag offer bach yn fedrus, fel plicio a thorri llysiau. Mae ymarferwyr yn annog y plant i frwsio eu dannedd yn iawn bob bore a phlannu hadau fel moron, pupur a thomatos. Caiff plant ddigonedd o gyfleoedd i flasu bwydydd newydd a gwylio planhigion yn tyfu.

Ceir darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo defnydd plant o'r Gymraeg. Mae ymarferwyr yn mynd ati i ysgogi plant i drafod y tywydd, disgrifio gweithredoedd, cyfrif a chanu caneuon Cymraeg yn ystod amser cylch. Caiff plant gyfleoedd rheolaidd i glywed ac ymateb i ymadroddion Cymraeg trwy gydol y sesiwn. Maent yn dysgu am dreftadaeth Cymru yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn gwisgo i fyny i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn addurno calonnau i ddysgu am Santes Dwynwen. Mae cyfleoedd da i ddysgu am ddiwylliannau eraill. Er enghraifft, mae plant yn gwneud lampau Diwali o does halen ac yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd.

Mae ymarferwyr yn trefnu ymweliadau â'r ardal leol i helpu plant i ymgyfarwyddo â lleoedd yn eu cymuned fel yr ardal goetir leol. Mae'r lleoliad wedi croesawu ymweliadau gan y deintydd lleol a hyfforddwr corfforol o'r Awyrlu Brenhinol hefyd, er mai cyfyngedig yw'r defnydd a wneir o ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr â'r lleoliad.

**Addysgu: Digonol**

Mae pob un o'r ymarferwyr yn cynorthwyo plant ac yn bodloni eu hanghenion unigol yn dda. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth glir o egwyddorion y cyfnod sylfaen ac yn gwybod pryd i ymyrryd i ymestyn y dysgu i helpu pob un o'r plant i lwyddo. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o ystod o strategaethau addysgu, fel amser cylch, gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion a chyfleoedd ar gyfer chwarae'n annibynnol. Maent yn rheoli ymddygiad plant yn effeithiol ac yn gwobrwyo plant yn briodol.

Mae ymarferwyr yn rhyngweithio â phlant mewn modd sensitif, parchus a gofalgar. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda wrth gynllunio gweithgareddau ac maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd i alluogi plant i ddysgu trwy brofiadau ymarferol a chwarae. Defnyddiant ystod addas o dechnegau holi i ennyn diddordeb plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn gofyn cwestiynau heriol priodol yn ystod arferion dyddiol i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol. O ganlyniad, nid yw plant bob amser yn gwneud y cynnydd gorau posibl, yn enwedig yn ystod arferion fel amser byrbryd.

Mae pob un o'r ymarferwyr yn cymryd rhan yn y broses asesu. Maent yn cofnodi'r hyn y gall y plant ei wneud pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad. Maent yn arsylwi a

monitro cynnydd plant yn effeithiol ac yn cofnodi a mesur cynnydd yn rheolaidd. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn briodol i olrhain pa mor dda y mae plant yn datblygu.

Mae ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni a gofalwyr am gynnydd eu plentyn trwy weithdrefnau ffurfiol ac anffurfiol. Maent yn trafod yr hyn y mae'r plant wedi'i wneud trwy gydol y sesiwn ac yn siarad am eu cynlluniau ar gyfer sesiynau yn y dyfodol. Ar ddiwedd y flwyddyn, maent yn cyflwyno amrywiaeth o waith eu plant i'r rhieni, a 'Llyfrau Trysor' sy'n dathlu eu cyflawniadau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn helpu'r plant i ddeall pa fwydydd sy'n dda iddynt ac maent yn hybu ffitrwydd corfforol yn effeithiol. Rhoddir cyfleoedd gwerth chweil i blant dyfu a blasu bwydydd newydd mewn modd cefnogol. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn tyfu pupur, betys a thomatos, y mae'r plant yn eu codi a'u blasu yn ystod sesiynau. Pan fyddant yn cael eu byrbryd, anogir plant i olchi eu dwylo, yfed llaeth neu ddŵr a blasu amrywiaeth o ffrwythau a bwydydd cartref iach. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddysgu am gynaliadwyedd trwy ddefnyddio casgen ddŵr ac ailgylchu papur.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiad da yn gyson ac mae gan blant ddealltwriaeth glir o reolau'r lleoliad. O ganlyniad, mae plant yn cydweithredu'n dda â'i gilydd ac yn cymryd rhan mewn sgyrsiau digymell, ac maent yn rhannu a chymryd eu tro heb ormod o ymyrraeth gan oedolion. Mae'r lleoliad yn datblygu synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod yn dda wrth i blant arsylwi adar sy'n dod yn ôl i ardd y lleoliad a dal a bwydo cwningen sy'n anifail anwes un o'r plant.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau annibynnol yn gadarnhaol, gan ddefnyddio canmoliaeth a gwobrau yn effeithiol. Maent yn sefydlu arferion cryf, fel amser cylch, amser stori ac amser byrbryd ac mae'r plant yn ymateb yn dda i'r rhain. Er enghraifft, mae plant yn helpu sychu byrddau a thacluso pan ofynnir iddynt wneud hynny. Caiff plant eu hannog yn effeithiol i fod yn garedig ac maent yn dweud ac arwyddo cân o ddiolch, a gweddi ddyddiol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Ceir cyfleoedd gwerth chweil i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae perthnasoedd llwyddiannus ag asiantaethau arbenigol yn helpu ymarferwyr i ddefnyddio gwybodaeth yn effeithiol i gefnogi anghenion penodol plant a theuluoedd yn dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd tawel, gofalgar a meithringar. Ceir gweithdrefnau diogel a chadarn i amddiffyn plant. Caiff pob plentyn ei drin yn gyfartal ac fe gânt gyfle i gymryd rhan ym mhob gweithgaredd.

Mae'r adeilad a'r safle yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda. Ceir ardaloedd dysgu effeithiol dan do gyda chyflenwad da o adnoddau sy'n rhoi cyfleoedd rheolaidd i blant ddatblygu eu medrau dysgu. Er enghraifft, mae'r ardal ymchwilio yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu eu medrau arsylwi a holi yn annibynnol gan ddefnyddio amrywiaeth o offer, fel magnedau, chwyddwydrau, plastigau lliw a pheli magnetig.

Mae'r lleoliad yn darparu ystod dda o adnoddau sy'n briodol i oedran sy'n cefnogi dysgu'r plant yn dda. Mae'r ardal dan do yn olau a lliwgar gydag awyrgylch sy'n addas ar gyfer plant. Mae arddangosfeydd lliwgar a phwrpasol yn cefnogi dysgu'r plant yn dda ac yn dathlu'r profiadau gwerthfawr y maent yn eu rhannu. Mae'r ardal yn yr awyr agored yn bwrpasol ac yn cefnogi chwarae corfforol y plant yn dda gydag amrywiaeth o ardaloedd, fel fframiau dringo, glaswellt a digon o le i bedalu a rhedeg. Mae'r gegin fwd a'r ardd gudd yn ardaloedd cyffrous sy'n denu plant ac yn darparu cyfleoedd gwerth chweil iddynt ddatblygu eu medrau corfforol. Nid oes digon o ymweliadau cynlluniedig â'r ardal leol i ddarparu cyfleoedd rheolaidd i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas yn effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: | Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad y mae'n ei rhannu â phob un o'r staff, y plant a'r rhieni yn dda. Mae ffocws cryf ar ddarparu amgylchedd dysgu sy'n ddiogel ac ysgogol lle mae pob un o'r plant yn hapus ac yn cael cymorth da yn eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn cynorthwyo staff yn briodol i ymgymryd â'u dyletswyddau dyddiol yn gydwybodol. Mae gan reolwyr ddisgwyliadau uchel o bob un o'r staff ac maent yn eu cynorthwyo a'u herio yn effeithiol i ddarparu profiadau o ansawdd da ar gyfer pob un o'r plant.

Ceir ethos cryf o waith tîm a chydweithio ymhlith staff ac maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu safon uchel o ofal. Mae gan bob un o'r staff swydd-ddisgrifiadau cyfoes gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ac maent yn cyflawni eu rolau yn gydwybodol. Mae gan y lleoliad system briodol ar gyfer rheoli perfformiad staff, ac mae gan bob un ohonynt dargedau priodol a chyflawnadwy ar gyfer gwella. Mae'r arweinydd yn darparu synnwyr cryf o arweinyddiaeth effeithiol i'r lleoliad. Mae'n goruchwylio'r lleoliad gyda chymorth y pwyllgor rheoli, a gyda'i gilydd, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o waith y lleoliad a thargedau ar gyfer gwella.

Mae’r lleoliad yn rhoi ffocws cryf ar flaenoriaethau cenedlaethol fel hyrwyddo bwyta’n iach a datblygu medrau Cymraeg plant.  Mae ymarferwyr wedi’u cymell yn dda ac maent yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i ddarparu’r gofal a’r amgylchedd dysgu gorau posibl ar gyfer y plant.  Mae’r gweithdrefnau cynllunio ac asesu yn sicrhau bod ymarferwyr yn nodi a bodloni anghenion pob plentyn yn effeithiol.  Mae’r arweinydd a rheolwyr yn adolygu polisïau’r lleoliad yn rheolaidd ac yn adlewyrchu newidiadau mewn arweiniad a deddfwriaeth yn briodol.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae’r pwyllgor rheoli yn adnabod y lleoliad yn dda ac mae wedi ymrwymo’n glir i welliant parhaus.  Mae proses hunanarfarnu’r lleoliad yn nodi pa mor dda y mae’r lleoliad yn cynnig addysg gynnar, ac mae ymarferwyr yn gweithio gyda’i gilydd yn effeithiol i gynllunio sut i symud ymlaen.  Er enghraifft, maent wedi gwella cyfleoedd i blant ddefnyddio cyfrifiaduron llechen ar draws holl ardaloedd y lleoliad.  Mae hyn wedi datblygu medrau plant yn effeithiol o ran defnyddio TGCh.

Mae’r arweinydd a’r ymarferwyr wedi bodloni’r argymhellion o’r arolygiad diwethaf yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ddatblygu technegau asesu ac arsylwi defnyddiol ac effeithiol.

Mae’r cynllun datblygu yn ddogfen briodol gyda thargedau priodol ar gyfer gwella.  Mae’n nodi’r hyn y mae angen i’r lleoliad ei wneud, sut maent yn bwriadu ei wneud a’r bobl sy’n gyfrifol.  Mae’r lleoliad wedi gwneud cynnydd da tuag at fodloni targedau presennol, er enghraifft cynllunio mwy o ymweliadau gan aelodau o’r gymuned leol ac ymweld â’r ysgol i ymuno â dathliadau Dydd Gŵyl Dewi.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae ymarferwyr yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda ynglŷn â’r hyn y mae eu plant yn ei ddysgu trwy adroddiadau llafar ac ysgrifenedig.  Ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad, mae ymarferwyr yn rhoi eu hasesiadau a’u harsylwadau i rieni ac athrawon newydd.  Caiff rhieni eu croesawu i’r lleoliad ar ddechrau a diwedd y sesiwn i siarad am y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud a ffyrdd y gallant eu helpu i wella.

Mae’r ffaith fod y lleoliad yn datblygu ei dudalen cyfryngau cymdeithasol wedi gwella lefel y cyfathrebu â rhieni.  Mae’n darparu gwybodaeth ddefnyddiol am yr hyn y mae plant wedi’i wneud yn ystod y sesiwn trwy rannu ffotograffau, sylwadau a chyflawniadau.  Mae hyn yn meithrin perthynas adeiladol gyda rhieni ac yn helpu plant i ymgynefino a gwneud cynnydd da.  Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â’r ysgol gynradd leol i gefnogi cyfnod pontio plant i’r cam nesaf yn eu haddysg.  Er enghraifft, mae ymarferwyr yn mynd â’r plant i’r ysgol i fod yn rhan o’u gŵyl Cynhaeaf, cyngerdd Nadolig, diwrnod chwaraeon a dathliadau diwedd tymor.  Ceir digonedd o gyfleoedd i blant ymweld â’r ysgol, ac mae hyn yn sicrhau bod y pontio yn effeithiol ac yn cynorthwyo’r plant yn dda.

Mae gan y lleoliad rai cysylltiadau â’r gymuned leol, er enghraifft ymweliad gan y deintydd, parafeddygon, a hyfforddwr corfforol o’r Awyrlu Brenhinol. Fodd bynnag, nid yw’r cysylltiadau hyn yn cynnwys y gymuned ehangach na lleoliadau eraill yn yr ardal ar y cyfan. Mae’r lleoliad yn annog y plant yn effeithiol i gymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian cenedlaethol, fel Diwrnod y Trwynau Cochion a Plant mewn Angen.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â’r athrawes ymgynghorol o’r awdurdod lleol. Mae hyn yn helpu ymarferwyr i arfarnu effeithiolrwydd yr amgylchedd dysgu, a’i wella.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r lleoliad yn gwneud defnydd da o staffio i gefnogi addysgu a dysgu’n dda. Mae rheolwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff â chymwysterau addas. Defnyddiant ymarferwyr yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o’u profiad a’u harbenigedd, fel cefnogi’r defnydd o’r Gymraeg. Caiff ymarferwyr hyfforddiant addas, yn bennaf trwy ymweliadau gan athrawes gyswllt yr awdurdod lleol. Defnyddiant adnoddau a syniadau i wella ansawdd eu haddysgu a’r profiadau dysgu a gynigir i blant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio ystod o adnoddau yn seiliedig ar lyfrau priodol i’r plant eu trin a’u trafod a datblygu eu medrau darllen cynnar. Mae ymarferwyr wedi mynychu ystod o gyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys hyfforddiant ymladd tân a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae hyn wedi datblygu medrau yn y lleoliad.

Me’r pwyllgor rheoli a’r arweinydd yn rheoli cyllid yn effeithlon i sicrhau bod adnoddau yn helaeth, o ansawdd da ac yn bodloni anghenion y plant yn effeithiol. Ar y cyd â’r ymarferwyr, mae’r arweinydd yn monitro ac yn arfarnu pa mor dda y mae adnoddau’n bodloni anghenion dysgu plant ac yn nodi targedau ar gyfer gwella.

Yng ngoleuni ansawdd y ddarpariaeth a’r arweinyddiaeth, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |